Cylchlythyr-Rhagfyr 08

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA!!

DIOLCH AM BOB CEFNOGAETH

STAFF

Ar ddiwedd mis Rhagfyr bydd un aelod staff y Fenter yn ymadael â ni wedi cyfnod o ddwy flynedd a hanner yn ein plith. Bydd prosiect busnes Amcan Un ' Y Fantais Gymraeg — cyfnod 2' yn dod i ben, ac felly bydd rhaid ffarwelio a chydweithiwr a ffrind sef Gwerfyl Eidda. Hoffwn i gyd fel staff, cyfarwyddwyr a'r gymuned ddymuno yn dda iawn iddi i'r dyfodol gan ddiolch iddi am ei gwaith caled. POB LWC.

Hefyd hoffwn groesawu Cerian Ellis yn ôl wedi ei chyfnod mamolaeth, anodd credu bod blwyddyn wedi mynd heibio. Mae Cerian wedi dychwelyd fel Swyddog Datblygu ac yn gweithio rhan amser, golygai hyn felly y bydd Dylan Jones yn parhau fel Prif Swyddog yn barhaol.

COLOFN GYMRAEG Y FREE PRESS

Parhau mae ein colofn yn y Free Press, rydym pob amser yn edrych am wirfoddol-wyr i ysgrifennu yn y golofn. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â ni yn y swyddfa, mae'r golofn ar gael i unrhyw un i ysgrifennu yn y Gymraeg am unrhywbeth, boed yn ddigwyddiad, hanes neu ddiddordebau.

PENBLWYDD HAPUS

MENTER IAITH SIR DDINBYCH

Yn ystod Mis Medi bu i'r Fenter ddathlu ei phenblwydd yn 10 mlwydd oed. Sefydlwyd y fenter yn ôl yn 1998 a dros y blynyddoedd mae wedi mynd o nerth i nerth gyda ambell i aelod o staff wedi mynd a dod. Fel rhan o'r dathliadau cafwyd noson caws a gwin ym Melin Brwcws. Cafwyd noson hynod o lwyddiannus yng nghwmni Parchedig Marcus Robinson. Daeth oddeutu 70 draw i fwynhau blasu gwahanol winoedd a chafwyd adloniant ysgafn gan Meinir Gwilym. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Iorwen am drefnu'r noson ac hefyd i bawb ddaeth draw i gefnogi a mwynhau. Felly hoffwn ddymuno Penblwydd hapus i'r fenter a dymuno yn dda ar gyfer y 10 mlynedd nesaf.

PROSIECT TREFTADAETH

Fel rhan o brosiect Addysgol Treftadaeth Iaith â ariannir gan y Loteri Genedlaethol bu'r band Brigyn yn cynnal gweithdai cerdd mewn tair ysgol yn y Rhyl. Roedd y band yn gadael i'r plant ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol i greu a recordio cerddoriaeth eu hunain. Defnyddiwyd allweddellau, gitar a llais i gynhyrchu deunydd creadigol tu hwnt. Y tair ysgol oedd Ysgol Llewelyn, Ysgol Dewi Sant a Ysgol Bryn Hedydd a mae'r diolch am ariannu y diwrnodau yma yn mynd i Gymunedau yn Gyntaf yn ogystal a Threftadaeth y Loteri. Nododd Gerallt Lyall, Swyddog Addysgl Treftadaeth Iaith, "Bu'r tridiau yn llwyddiant ysgubol gyda'r plant wrth eu boddau yn creu caneuon o'r newydd". Mae'r cerddoriaeth a gynhyrchwyd ar gael ar Gryno Ddisg.

GWEITHGAREDDAU

Cafwyd Taith ysgolion hynod lwyddiannus yng nghwmni Meinir Gwilym yn ystod mis Hydref. Bu'n ymwled a nifer o ardaloedd y Sir gan gynnwys Llangollen, Corwen, Dinbych, Rhuthun, Rhyl, Llanelwy a Phrestatyn. Yn ystod y daith cafodd dros 1500 o blant y cyfle i fwynhau ei cherddoriaeth.

Cynhaliwyd bore goffi yn ardal Llandyrnog i annog unigolion i fynychu gwersi Cymraeg. O ganlyniad i hyn mae gwersi bloc wedi dechrau yn yr ysgol ar nos Iau Tachwedd 27ain a byddant yn cael ei cynnal am 8 wythnos. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â ni.

DIGWYDDIADAU 2009

Mae nifer o weithgareddau ar y gweill ar gyfer 2009, bydd ein Cyngerdd Gwyl Dewi blynyddol yn cael ei gynnal yn ogystal â ymgyrch addysg Gymraeg 'Kids Soak it up'. Edrychwch allan am fwy o fanylion am y digwyddiad uchod. Os hoffech chi weld unrhyw weithgaredd yn eich ardal chi cysylltwch â ni, rydym pob amser yn edrych am syniadau newydd yn ogystal â gwirfoddolwyr i'r Fenter.

CYSWLLT

MENTER IAITH SIR DDINBYCH

ADEILAD DEIAMWNT

6 HEIGAD

DINBYCH

LL16 3LE

01745 812822

ymholiadau@menteriaithdinbych.co.uk

www.mentrauiaith-gogledd.com

Menter Iaith Sir Ddinbych

Yn Hyrwyddo'r Gymraeg yn Lleol
Promoting the Welsh Language Locally

BWRDD YR IAITH GYMRAEG · WELSH LANGUAGE BOARD

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Supported by
The National Lottery®
through the Heritage Lottery Fund

Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL